



**CYMWYS AR
GYFER Y DYFODOL**



Ymchwil gyda Cholegau Addysg Bellach ar y Raddfa Graddau TGAU

Prif adroddiad

Medi 2022



Ymchwil gyda Cholegau Addysg Bellach ar Raddfa Graddio TGAU:

Dadansoddiad Hysbysu am yr Opsiwn i Gyfuno Graddau F a G

Cyflwyniad.....	2
Dull Ymchwil.....	3
Recriwtio cyfranogwyr.....	3
Dull	3
Dadansoddiad.....	4
Ystyriaethau moesegol.....	4
Prif Ganfyddiadau	5
Defnydd presennol graddau lefel un	5
Sut y caiff graddau F a G eu hystyried.....	8
Effeithiau cyfuno graddau F a G	11
<i>Effeithiau ar ddysgwyr</i>	11
<i>Effeithiau ar golegau.....</i>	12
<i>Effeithiau ar athrawon a rhanddeiliaid ehangach.....</i>	12
<i>Effeithiau negyddol ail-enwi</i>	14
<i>Effeithiau newid ffiniau'r graddau.....</i>	14
<i>Effeithiau anghymesur ar ddysgwyr.....</i>	15
<i>Effaith ar ddatblygiad dysgwyr yn dilyn AB</i>	16
Cyfuno pellach i raddau lefel un	17
Newid ehangach.....	17
<i>Gostwng nifer y graddau TGAU.....</i>	18
<i>Cadw nifer y graddau TGAU</i>	18
<i>Cynyddu nifer y graddau TGAU.....</i>	18
<i>Awgrymiadau eraill.....</i>	18
Casgliad	19
Cyfeiriadau.....	21
Atodiadau.....	24

Cyflwyniad

Fel rhan o'r broses o ail-lunio cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru, roedd Cymwysterau Cymru wedi cynnal adolygiad o'r raddfa graddio TGAU. Roedd tipyn o wahaniaeth yn y dull o raddio ar draws y gwledydd datganoledig. Mae Lloegr wedi trosglwyddo i raddfa 9-1, gan leihau nifer y graddau lefel un a chynyddu nifer y graddau lefel dau. Yng Ngogledd Iwerddon, maen nhw wedi ychwanegu gradd C*, ac yn yr Alban, mae'r cymwysterau National 5 yn cael eu graddio drwy ddilyn model A-D. Mae TGAU sydd wedi'u cymeradwyo yn erbyn ein meini prawf i Gymru yn cael eu graddio gan ddefnyddio'r model A*-G. Ar ôl cynnal archwiliad cychwynnol, roedd y penderfyniad wedi'i wneud y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar yr opsiwn i ostwng nifer y graddau lefel un ar gyfer TGAU. Cafodd hyn ei fireinio ymhellach i edrych ar y posibilrwydd o gyfuno graddau F a G (yn ychwanegol i'r opsiwn o beidio â newid o gwbl).

Tri rheswm allweddol oedd wrth wraidd y penderfyniad o gyfuno graddau lefel un, sef:

- Y safbwynt nad oes angen gwahaniaethu rhwng F a G mwyach o ystyried y ganran uchel o raddau F ac uwch a ddyfernir (Llywodraeth Cymru, 2021)
- Y posibilrwydd y byddai gostwng nifer y graddau lefel un yn cynyddu cywirdeb y dosbarthiad
- Pryder bod graddau TGAU lefel un yn cael eu camddeall a'u gweld fel methiant, yn hytrach na fel graddau pasio lefel un. Yn y cyd-destun hwn, teimlwyd y byddai angen ail-lunio gradd F os byddai'n dod yn radd derfynol ar y raddfa.

Graddfa Graddio TGAU presennol

A*	A	B	C	D	E	F	G
Lefel 2				Lefel 1			

Er mwyn dod i benderfyniad ar gynnig newid i'r raddfa graddio, gofynnwyd i dîm ymchwil Cymwysterau Cymru i gasglu tystiolaeth ar gyfuno graddau F a G. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar y modd y gall graddau F a G eu defnyddio (a'u hystyried) gan randdeiliaid ym myd addysg ôl 16. Roedd ymdeimlad y byddai cael mwy o wybodaeth ar y modd y defnyddir graddau TGAU yn helpu i ddod i benderfyniad a fyddai llunio graddfa graddau TGAU nad yw'n gwahaniaethu rhwng graddau F a G yn addas wrth reoli'r broses o drosglwyddo i fyd addysg ôl-16.

Oherwydd y diffyg capasiti ac amser a oedd ar gael i gynnal y gwaith hwn, roedd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar gasglu safbwyntiau cyfranogwyr o golegau addysg bellach (AB). Roedd ymdeimlad y byddai deall safbwyntiau colegau yn bwysig o ystyried eu rôl o addysgu poblogaeth amrywiol o ddysgwyr ar ystod eang o gyrsgiau. Yn wahanol i sefydliadau fel y chweched dosbarth mewn ysgolion, nid yw colegau yn gyfarwydd â dysgwyr i ddechrau pan maent yn cofrestru. Oherwydd hyn, teimlwyd y byddai colegau yn dibynnu ar raddau wrth ymdrin â dysgwyr sy'n trosglwyddo i fyd addysg ôl 16.

Yna, roedd y tîm ymchwil wedi ymgysylltu â'r sector Addysg Uwch er mwyn penderfynu a fyddai cyfuno'r graddau yn arwain at ganlyniadau anfwriadol i golegau ledled Cymru. Dyma'r cwestiynau a oedd wrth wraidd y gwaith ymchwil:

- Sut mae colegau yn defnyddio graddau F a G?
- Sut mae colegau'n ystyried graddau F a G?
- Oes angen newid y raddfa graddio?
- Beth fyddai effaith posibl cyfuno graddau F a G?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dull ymchwil, gan gynnwys dyluniad yr ymchwil, y broses o gasglu'r data, a'r dull dadansoddi. Yna, mae'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer pob cwestiwn ymchwil.

Dull Ymchwil

Recriwtio cyfranogwyr

Roedd y tîm ymchwil wedi mynychu Gweithdy Ansawdd a Chwricwlwm gyda rhanddeiliaid AB a oedd yn edrych ar ddyfodol TGAU a goblygiadau hyn ar ddarpariaeth AB. Roedd cynrychiolydd o bob coleg yng Nghymru yn bresennol. Roedd Cymwysterau Cymru wedi cyflwyno'r syniadau i ddiwygio'r raddfa graddio TGAU gan egluro'r rhesymeg sydd wrth wraidd cyfuno graddau F a G. Yn dilyn y drafodaeth, roedd y tîm ymchwil wedi egluro'u bwriad i ymgysylltu â cholegau er mwyn casglu'u safbwyntiau ar gyfuno'r ddwy radd. Roedd y rhai a oedd yn bresennol wedi cael trosolwg o gwestiynau'r cyfweiliad a gofynnwyd iddynt a allai'r tîm ymchwil gysylltu ag aelodau i drafod y posibilrwydd o gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Nid oedd un cynrychiolydd wedi dangos gwrthwynebiad i gael eu cysylltu.

Ar ôl rhoi gwybod wrth y cyfranogwyr am yr ymchwil, cafodd y tîm fanylion cyswllt yr aelodau a fynychodd y gweithdy. Anfonwyd e-bost at yr holl golegau ar 26 Ionawr 2022 yn gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad ar-lein. Roedd taflen wybodaeth i gyfranogwyr wedi'i hatodi i'r e-bost a oedd yn amlinellu'r prosiect, y pynciau i'w trafod ac yn rhoi gwybodaeth am eu hawliau a'r modd y defnyddir yr wybodaeth a roddir. Yna, anfonwyd e-bost dilynol ar 8 Chwefror at y rhai nad oeddent wedi ymateb i'r e-bost cychwynol.

Roedd aelod o staff o bob coleg (Atodiad 1) wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, gan arwain at 12 cyfweiliad i gyd. Roedd y cyfranogwyr yn amrywio o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau, o Is-Benaethiaid i Benaethiaid Adran. Wedi hynny, trefnwyd cyfweiliadau dros gyfnod o dair wythnos rhwng 7 a 28 Chwefror. Roedd cwestiynau'r cyfweiliad wedi'u rhoi ymlaen llaw; roedd hyn yn galluogi aelodau o staff y colegau i ystyried y cwestiynau'n fanylach a chasglu safbwyntiau cydweithwyr. Rhoddwyd yr opsiwn o gael cyfweiliad yn Gymraeg neu'n Saesneg, a dewisodd yr holl gyfranwyr i gael trafodaeth drwy'r Saesneg.

Dull

Roedd yr ymchwil wedi defnyddio cyfweiliadau lled-strwythuredig i sicrhau ffocws o ran y cwestiynau ymchwil, gan sicrhau hyblygrwydd i fynd ar ôl themâu wrth iddynt godi. Roedd y cyfweiliadau'n casglu gwybodaeth fanwl am faes pwnc cymhleth; roedd y rhai a gafodd eu holi yn gallu archwilio'r gwahanol agweddau a oedd yn cael eu hailadrodd a'r canlyniadau

cysylltiedig. Roedd pawb a gafodd eu holi wedi ymgysylltu'n llawn â'r cwestiynau, gan lunio data helaeth i helpu Cymwysterau Cymru gyda'r penderfyniad o newid y raddfa graddio.

Roedd y cyfweiliadau wedi'u cynnal ar Microsoft Teams, gan hwyluso cyfranogiad ledled Cymru. Roedd nifer y cyfranogwyr yn amrywio ar gyfer pob cyfweiliad. Roedd un cyfweiliad yn cynnwys un cyfranogwr, tra bod cyfweiliadau eraill yn cynnwys hyd at bedwar cyfranogwr. Roedd y cyfweiliadau a oedd yn cynnwys grŵp o bobl wedi helpu i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau. Oherwydd y nifer fechan o bobl a gafodd eu holi, roedd y cyfweiliadau wedi'u cynnal yn ddiraffferth, a dim ond ychydig o ymyrraeth a oedd wedi codi ymhlith cyfranogwyr. Nid oedd unrhyw un o'r cyfranogwyr i'w weld yn cymryd dros y drafodaeth, ac oedd pob un yn cael y cyfle i rannu'i safbwyntiau. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y cyfranogwyr wedi'i dylanwadu gan y rhai eraill a oedd yn bresennol, yn enwedig am fod rhai ohonynt yn cynnwys uwch arweinwyr.

Roedd pob cyfweiliad yn dilyn canllaw pwnc (Atodiad 2) a gafodd ei adolygu gan y Pennaeth Ymchwil er mwyn sicrhau ansawdd. Roedd y canllaw yn cynnwys pedair adran:

- Y ffordd y caiff graddau F a G eu defnyddio
- Y ffordd y caiff graddau F a G eu hystyried
- A oes angen newid y raddfa raddio neu beidio
- Effeithiau canfyddedig uno'r ddwy radd

O ystyried bod dysgwyr fel arfer yn cael proffil cymysg o raddau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ganolbwyntio ar ddysgwyr sy'n cael mwyafrif o raddau F neu G wrth ateb cwestiynau'r cyfweiliad. Roedd y cyfweiliadau'n amrywio o ran eu hyd, gan fynd o hanner awr i awr, ac roeddent yn cael eu recordio i hwyluso'r broses o'u trawsgrifio'n rhannol i'w dadansoddi.

Dadansoddiad

Roedd y data wedi'i dadansoddi fesul cam. I ddechrau, roedd yr ymchwilydd wedi ceisio dod yn gyfarwydd â'r data drwy ddarllen drwy'r trawsgrifiadau a nodi'i sylwadau cychwynnol. Codio'r atebion oedd ail gam y broses; nodwyd disgrifiad byr yn erbyn yr atebion a oedd yn cael eu hystyried yn berthnasol i'w dadansoddi (yn ôl y cwestiynau ymchwil). Cafodd y codau hyn eu hadolygu yn ystod y broses ddadansoddi er mwyn gwella lefel y disgrifiad. Roedd cam olaf y broses yn cynnwys sylwi ar batrymau ymysg y codau a oedd wedi'u cynhyrchu; roedd codau cysylltiedig wedi'u grwpio â'i gilydd er mwyn creu themâu ehangach a oedd yn cynnwys safbwyntiau'r cyfranogwyr. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad oedd y trawsgrifiadau wedi'u nodi gair am air, gan olygu ei bod yn bosibl bod rhai themâu wedi'u hepgor neu eu camddechongli.

Ystyriaethau moesegol

Rhoddyd taflen wybodaeth i'r cyfranogwyr cyn y cyfweiliad ac roeddent wedi'u hannog i siarad gyda'r ymchwilydd os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau. Gofynnwyd iddynt ddarllen y daflen wybodaeth a chodi unrhyw gwestiynau cyn llofnodi'r ffurflen ganiatâd. Roedd yr unigolion wedi rhannu'u ffurflenni caniatâd cyn y cyfweiliad. Ar ddechrau'r cyfweiliad, roedd yr ymchwilydd wedi ailadrodd bod eu cyfranogiad yn wirfoddol, a phwysleisio'u hawliau o ran

cyfrinachedd cyn cadarnhau eu penderfyniad i gymryd rhan. Cafwyd caniatâd hefyd i gofnodi'r cyfweiliad. Roedd yr holl drawsgrifiadau yn ddiennw, ac roedd unrhyw wybodaeth a oedd yn datgan unrhyw fanylion yn cael ei ddileu lle bo hynny'n bosibl. Er i'r camau angenrheidiol gael eu cymryd i ddiogelu anhysbysrwydd unigolion, gall natur y sampl olygu ei bod yn bosibl i adnabod y coleg.

Cryfderau a chyfyngiadau'r ymchwil

Mae'n bwysig nodi sawl cryfder a chyfyngiadau'r gwaith ymchwil. Er enghraifft, roedd yr ymchwil yn ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n rheoli cyfran uchel o ddysgwyr sy'n trosglwyddo o addysg orfodol. Roedd tua 50% o'r dysgwyr a oedd wedi symud ymlaen i fyd addysg ôl-16 yn y flwyddyn 2021/22 wedi cofrestru ar gyfer rhaglen mewn coleg (Llywodraeth Cymru, 2022). Roedd ymdeimlad y byddai deall sut y caiff graddau lefel un eu defnyddio gan golegau i reoli'r gwaith o drosglwyddo cyfran helaeth o ddysgwyr yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw effeithiau anfwriadol o ddileu gradd G.

Er bod y gwaith ymchwil ar raddfa gymharol fach a oedd yn cynnwys 12 cyfweiliad yn unig, roedd y gwaith yn cynnwys aelodau o staff o bob coleg yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn amrywio yn eu rolau a'u cyfrifoldebau, a oedd yn golygu y casglwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Hefyd, roedd rhai o'r bobl a gafodd eu holi wedi casglu safbwyntiau eu cydweithwyr cyn y cyfweiliad, a oedd wedi ehangu'r safbwyntiau a roddwyd. Fodd bynnag, nid yw safbwyntiau'r cyfranogwyr o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau cyffredinol y coleg. Ar ben hynny, am fod rhai o'r cyfranogwyr wedi gofyn i gael eu cyfweld mewn grŵp, mae'n bosibl y gallai'r canfyddiadau adlewyrchu barn ymatebwyr o ganolfannau penodol yn anghymesur.

Hefyd, nid oedd y gwaith ymchwil yn cynnwys safbwyntiau cyfranogwyr o bob math o ganolfan a fyddai â barn ar bwrpas a defnydd graddau F a G. Er enghraifft, nid oedd y sampl yn cynnwys ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig. Mae'n bosibl y gallai barn ymatebwyr o wahanol ganolfannau amrywio'n sylweddol. Yn olaf, nid oedd y gwaith ymchwil wedi casglu safbwyntiau dysgwyr, a fyddai'n bwysig i'w hystyried wrth ddeall effeithiau cyfuno'r graddau ar y ffordd maent yn ystyried eu cyflawniad, eu hunanhyder a'u cymhelliant i ddatblygu.

Prif Ganfyddiadau

Defnydd presennol graddau lefel un

Gofynnwyd i gyfranogwyr egluro'r broses o neilltuo dysgwyr i gymwysterau a'r llwybrau dilyniant nodweddiadol i ddysgwyr gyda graddau F a G rhan fwyaf. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi gwahaniaethu rhwng y brif elfen rhaglen ddysgu ac elfen sgiliau rhaglen ddysgu. Roedd y rhai a gafodd eu holi wedi dweud bod dysgwyr sy'n cael graddau F a G yn cael eu rhoi yn yr un grŵp wrth gael eu cofrestru ar eu prif raglen. Roedden nhw wedi egluro bod y dysgwyr hyn yn dueddol o gofrestru ar gyfer darpariaeth lefel is, gan gynnwys rhaglenni lefel mynediad, rhaglenni galwedigaethol lefel un, rhaglen ymgysylltu neu sylfaenol, cwrs cychwyn o'r newydd, neu gasgliad o gyrsiau llai. Roedd rhai wedi dweud bod eu coleg yn tueddu i grwpio graddau E gyda graddau F a G a bod dysgwyr fel ar fer yn cofrestru ar gyfer darpariaeth lefel un.

Dim ond un person a gafodd ei holi a oedd wedi dweud bod ei goleg yn gwahaniaethu rhwng graddau F a G wrth neilltuo dysgwyr i'w prif raglen astudio. Mae dysgwyr sy'n cael proffil o raddau G yn cofrestru ar gyfer cwrs paratoi galwedigaethol, tra bod dysgwyr sy'n cael graddau F yn cofrestru ar gyfer rhaglen porth lefel mynediad neu raglen lefel un. Yn nodedig, roedd yr unigolyn wedi pwysleisio y byddai'r penderfyniad hwn yn dibynnu ar ddewis yr unigolion o ran y cwrs astudio, yn ogystal ag ystyriaethau ehangach fel a oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Roedd wedi pwysleisio bod y broses o neilltuo dysgwyr i lwybrau bob tro yn *'canolbwyntio ar yr unigolyn'*.

Mae dysgwyr sy'n cael graddau F a G rhan fwyaf hefyd yn dueddol o gael eu rhoi yn yr un grŵp wrth gofrestru ar gyfer yr elfen sgiliau o'u rhaglen ddysgu. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi pwysleisio y byddai angen cefnogaeth sylweddol ar y dysgwyr i feithrin sgiliau lefel sylfaenol, waeth a ydynt wedi cael graddau F a G neu beidio. Mae'r llwybrau a argymhellir gan golegau yn cynnwys cyrsiau Agored Cymru neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC). Mewn achosion lle maent yn ailsefyll eu harholiadau TGAU, maent yn tueddu i gael eu cofrestru ar raglen tair blynedd ac ar gyfer cwrs mathemateg haen sylfaenol (a gwyddoniaeth lle bo hynny'n berthnasol).

Fodd bynnag, mae ambell goleg yn defnyddio llwybrau penodol wrth neilltuo dysgwyr i lwybrau sgiliau. Mae dysgwyr sy'n cael graddau F yn bennaf yn cofrestru ar gyfer rhaglen ddwy flynedd i ailsefyll TGAU, tra bod dysgwyr sy'n cael graddau G yn cofrestru ar gyfer rhaglen tair blynedd. Caiff cynghorwyr sgiliau astudio eu dyrannu i'r ail grŵp hynny o ddysgwyr hefyd ac maent fel arfer yn cael mynediad at ddarpariaeth mewn grwpiau llai. Fodd bynnag, mae'n debyg bod dysgwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer rhaglen ailsefyll yn aml yn ei chael hi'n anodd datblygu ac maent fel arfer yn dilyn cymwysterau gwahanol, fel SHC. Mewn coleg arall, mae dysgwyr yn debygol o gofrestru'n uniongyrchol ar gyfer darpariaeth wahanol. Mae dysgwyr sy'n cael mwyafrif o raddau F yn aml yn cael eu cofrestru ar gwrw Skills Forward, a gaiff ei ddisgrifio fel ffordd o baratoi at arholiadau TGAU. Mae dysgwyr sydd â graddau G yn cofrestru ar gyfer cwrs Agored Cymru neu'n cael mynediad at ddosbarthiadau llythrennedd a rhifedd mewnol.

Ar ben hynny, dywedodd un a gafodd ei holi, er bod dysgwyr yn gyffredinol yn cael eu rhoi yn yr un grŵp ac yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster SHC, mae'n bosibl bod dysgwyr yn cael eu gwahaniaethu wrth gael eu dosbarthu ar gyfer dosbarthiadau mathemateg. Er enghraifft, gall dysgwyr sy'n cyrraedd graddau F gael eu cofrestru ar gyfer mathemateg TGAU haen sylfaenol. Ond, byddai hynny'n ddibynnol ar gynlluniau a chymhelliant y dysgwyr, ac ymyrraeth bosibl gan rieni.

Gofynnwyd hefyd i gyfranogwyr sut mae'r llwybrau datblygu hyn yn cymharu gyda dysgwyr sy'n cael mwyafrif o raddau D ac E. Dywedodd rhai - yn debyg i ddulliau a gymerir gyda dysgwyr sy'n cael mwyafrif o raddau F a G - bod y dysgwyr yn cael eu rhoi yn yr un grŵp wrth gael eu dosbarthu i brif elfen o'u rhaglen ddysgu, sydd fel arfer yn rhaglen lefel un neu lefel dau. Dywedodd eraill bod dysgwyr sy'n cael graddau D fel arfer yn cofrestru ar gyfer rhaglen lefel dau, tra bod dysgwyr sy'n cael graddau E yn cofrestru ar gyfer rhaglen lefel un. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf wedi pwysleisio y byddai hyn yn dibynnu ar broffil cyffredinol y graddau ym mhob pwn; os yw dysgwyr yn cael mwy o raddau E na graddau D, maent yn dueddol i gael trosglwyddo i ddarpariaeth lefel un. Roedd rhai a gafodd eu holi wedi dweud y

byddai hyn hefyd yn dibynnu ar y cymhwyster y mae'r dysgwyr am ei ddilyn, am fod gan rhai ohonynt feini prawf mynediad mwy penodol. Yn ogystal, byddai lefel y cwrs yn dibynnu ar raddau'r dysgwyr mewn Saesneg a Mathemateg TGAU. Dywedodd y cyfranogwyr bod y pynciau hyn yn fwy dylanwadol wrth lywio'r penderfyniad o ba lwybr y mae dysgwr yn ei ddilyn.

Wrth gofrestru dysgwyr ar yr elfen sgiliau o'u rhaglen ddysgu, mae rhai colegau'n gwahaniaethu rhwng graddau E a D. Fel arfer, mae graddau E yn rhoi mynediad i raglen ddwy flynedd i ailsefyll TGAU, tra bod graddau D yn rhoi mynediad i raglen un flwyddyn i ailsefyll TGAU. Mae colegau eraill yn tueddu i roi dysgwyr yn yr un grŵp; mae dysgwyr sy'n cael graddau E yn cael eu rhoi yn yr un grŵp â dysgwyr sy'n cael graddau F a G yn bennaf. Dywedodd un cyfranogwr bod ei goleg yn cofrestru dysgwyr gyda graddau D ar gyfer rhaglen ailsefyll, a bod dysgwyr sydd â graddau o dan D (E, F a G) yn cofrestru ar gyfer cymhwyster SHC.

Mae'n ymddangos bod graddau TGAU yn un o'r dangosyddion yn unig a ddefnyddir i benderfynu ar y rhaglen briodol i ddysgwyr. Er enghraifft, roedd llawer wedi nodi, bod canlyniadau asesiadau cychwynnol yn cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd i ddod i benderfyniad ynghylch trosglwyddo dysgwyr i lwybr mwy addas. Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol yn cael eu hystyried er mwyn cymharu gyda chanlyniadau TGAU, ac er mwyn nodi 'man cychwyn' y dysgwyr. Dywedodd un person a gafodd ei holi bod y Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) "llawer yn fwy defnyddiol na'r F a'r G" am fod y canlyniadau yn dangos gallu'r dysgwr. Roedd y dangosyddion eraill a oedd hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig yn cynnwys ADY, pryderon iechyd meddwl neu ffactorau amgylchiadol.

"Byddai angen llawer o gefnogaeth ar ddysgwyr sydd â graddau F a G, mae'n bosibl bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, sy'n eu hatal rhag gallu cyrraedd y graddau hynny drwy'r cwricwlwm, rydyn ni'n gweld hynny'n aml. Neu fod ganddynt faterion emosiynol neu deuluol."

Roedd y gwaith ymchwil hefyd wedi ceisio canfod a yw graddau lefel un yn cael eu defnyddio'n ehangach o gwbl. Roedd rhai o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn unrhyw ffordd wahanol. Eglurodd un cyfranogwr bod dysgwyr â graddau F a G fel arfer yn cael eu cofrestru ar gyfer rhaglennu sy'n gwahaniaethu; dywedodd "byddwn i ddim yn poeni gormod am raddau TGAU" at ddibenion nodweddiadol fel cynllunio gwersi neu deilwra dysgu.

Fodd bynnag, roedd eraill wedi tynnu sylw ar ddefnydd pellach graddau F a G. Er enghraifft, defnyddir graddau TGAU i fesur a mapio cynnydd dysgwyr. Mae canlyniadau'r dysgwyr yn cael eu cymharu gyda'u graddau pan oeddent wedi dechrau. Os yw dysgwr wedi datblygu o radd G i radd F, caiff ei ystyried fel tystiolaeth o'i gynnydd. Nododd un a gafodd ei holi bod graddau F a G yn cyfrif at sgôr TGAU cyffredinol dysgwr a bod hyn yn cael ei ddefnyddio yn y broses o osod targedau. Fodd bynnag, byddai dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer rhaglenni galwedigaethol lefel is, rhaglenni nad ydynt yn cael eu graddio, yn gosod "pas fel targed ta beth".

Mae graddau F a G hefyd yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth i ddangos y gall fod angen cymorth pellach. Fel y nodwyd uchod, mae un coleg yn rhoi cynghorwyr sgiliau astudio i ddysgwyr sydd â mwyafrif o raddau G. Roedd cyfranogwr arall wedi egluro y gall graddau F a G gael eu defnyddio gan athrawon dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) er mwyn deall eu gallu a theilwra'r cymorth iddynt. Fodd bynnag, roeddent

wedi nodi nad yw cyrsiau ILS yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'u bod yn dueddol o bwysleisio cynlluniau dysgu unigol. O ganlyniad, byddai graddau TGAU yn un o nifer o ddangosyddion; byddai gwaith pontion mewn ysgolion, neu statws ADY hefyd yn ddangosyddion pwysig. Yn olaf, eglurodd un a gafodd ei holi bod graddau F a G dim ond yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth i atal mynediad i ddysgwyr at gyrsiau.

"Ry'n ni'n ei ddefnyddio fel tystiolaeth pan mae dysgwyr yn dod aton ni ac yn gofyn pam na allent gael lle ar y cwrs. Bydden ni'n dweud mai G, yw'r radd isaf bosibl y gallech ei gael... Dyna'r unig reswm ry'n ni'n ei ddefnyddio."

Sut y caiff graddau F a G eu hystyried

Er mwyn deall yr wybodaeth y mae graddau F a G yn ei rhoi ac er mwyn rhagweld effeithiau posibl cyfuno'r graddau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut y byddent yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr sydd â graddau F rhan fwyaf a dysgwyr sydd â graddau G rhan fwyaf. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nad ydynt yn gweld gwahaniaeth. Eglurodd un person bod y gwahaniaeth mor fach, ei fod yn "ddiystyr".

"Dwi'n credu bod pawb yn cytuno ei fod yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt mewn gwirionedd."

Roedd eraill wedi dweud nad yw'r gwahaniaeth hwn yn codi. Roedd rhai yn teimlo nad yw nifer y marciau sydd eu hangen i gael gradd F lawer yn uwch na'r marciau sydd eu hangen i gael gradd G, a bod unrhyw wahaniaeth mewn gallu yn fach. Dywedodd un unigolyn, "gyda'r gwahaniaeth mor fach [rhwng y] ffiniau graddau F a G, nid ydyn ni'n gwahaniaethu".

Eglurodd cyfranogwr arall bod gradd E yn ddangosydd i wahaniaethu, gan ddweud y byddai dysgwyr sydd â graddau is na E yn cael "dull dysgu wedi'i deilwra". Yn yr un modd, eglurodd unigolyn arall eu bod yn defnyddio gradd C i wahaniaethu rhwng dysgwyr.

"Dwi ddim yn siŵr a fydden ni'n nodi'r gwahaniaeth hwn. Fydden ni ddim yn gwneud hynny. Rydyn ni'n defnyddio'r ffin honno ar gyfer gradd C i wahaniaethu rhwng y dysgwyr."

Er hynny, roedd rhai wedi tynnu sylw at wahaniaethau clir. Er enghraifft, efallai y bydd gan ddysgwyr sydd â graddau F fod a lefel uwch o sgiliau i gwblhau cwrs paratoi at arholiadau TGAU. Gall fod angen i ddysgwyr sydd â graddau G ar y llaw arall, gael mwy o gefnogaeth a chymorth gyda meysydd penodol cyn ceisio dechrau paratoi. Nodwyd hefyd bod dysgwyr yn dangos gwahaniaeth penodol ym mhwc mathemateg. Gall myfyrwyr sydd â graddau F allu delio â chynnwys mathemategol, ond maent yn tueddu i weld algebra yn anodd. Ar y llaw arall, gall myfyrwyr â graddau G fod â sgiliau mathemategol mwy gwan a bod lefel eu sgiliau llythrennedd yn tueddu i effeithio ar eu dealltwriaeth o gwestiynau arholiad.

Gall mewnwleidiad i wahaniaethau rhwng dysgwyr sydd â graddau F a dysgwyr sydd â graddau G hefyd fod yn amlwg wrth edrych ar ddadansoddiad o ganlyniadau unigol. Roedd un unigolyn wedi egluro y gall dysgwyr sydd â gradd F gael gwell marc yn ei waith cwrs, "ond bod yr arholiad wedi'i adael i lawr". Roedd wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai hyn fod yn berthnasol wrth neilltuo dysgwyr i gyrsiau gan fod llawer o raglenni hyfforddiant galwedigaethol yn asesu dysgwyr drwy gynnal asesiadau heb arholiad. Fodd bynnag, ychwanegwyd y byddai hyn yn rhoi cipolwg ar agwedd at ddysgu yn hytrach na gallu academaidd.

Yn debyg i hyn, roedd llawer wedi tynnu sylw nad oes llawer o wahaniaeth rhwng dysgwyr sydd â graddau F a graddau G wrth ystyried gallu academiaidd, ond y gall gradd G fod yn ddefnyddiol i ddangos ffactorau ar wahân i allu. Gall ffactorau sy'n gwahaniaethu gynnwys ADY, presenoldeb neu faterion ymddygiad.

"Mae'n debyg bod dysgwyr sydd â graddau G yn gyfarwydd iawn o gael cymorth, maent yn debygol o fod wedi gorfod cael cefnogaeth sylweddol gan yr ysgol i gael gradd G yn hytrach na gradd U...mae'n debyg eu bod yn ddysgwyr nad ydynt wedi bod yn bresennol a'u bod wedi bod yn oddefol yn eu dysgu."

Yna, gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau y mae graddau F a G yn cael eu gwerthfawrogi gan golegau. Ar y cyfan, dywedodd tua hanner y rhai a gafodd eu holi nad yw graddau F a G yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd rhai yn rhesymu nad ydynt yn cael eu derbyn na'u hystyried ar gyfer llawer o lwybrau. Roedd un wedi egluro nid yn unig nad ydyn nhw'n cael eu gwerthfawrogi, ond nad ydynt yn ddefnyddiol chwaith am eu bod *"yn dangos gallu mewn rhywbeth sy'n is na throthwy lefel dau sef beth y dylai TGAU ei wneud"*.

Eglurodd cyfranogwyr eraill, fodd bynnag, y caiff graddau F a G eu gwerthfawrogi. Roedd rhai wedi dweud eu bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu defnydd fel meini prawf mynediad. Mewn un coleg, graddau G yw'r gofyniad lleiaf ar gyfer mynediad i ddarpariaeth lefel un. Roedd y rhai a gafodd eu holi wedi tynnu sylw at y ffaith bod eu defnydd fel meini prawf mynediad yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu; gall dysgwyr ddechrau ar raglen lefel un, ond mae'n bosib iddynt ddatblygu i lefel tri. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y byddai angen i ddysgwyr gael o leiaf pedair gradd G i gofrestru ar gyfer rhaglen lefel un. Ar ben hynny, eglurodd un person, er nad yw graddau F a G yn cael eu defnyddio fel arfer i fesur gallu academiaidd, maent yn cael eu defnyddio i nodi rhywfaint o lefel ymrwymiad dysgwr. Yn wahanol i rai o'r safbwyntiau a nodwyd uchod, roeddent wedi egluro bod gradd G yn arwydd bod myfyrwr yn ddigon ymroddedig i gwblhau eu cymwysterau.

Roedd pwynt pellach a godwyd yn cyfeirio at y mater nad yw colegau yn gwybod rhyw lawer am ddysgwyr pan maent yn cofrestru, a bod graddau F a G yn rhoi man cychwyn er mwyn mesur lefel gallu dysgwr. Roedd y rhai a gafodd eu holi hefyd wedi ategu bod graddau F a G yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod yn rhoi arwydd y gallai fod angen rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr. Nodwyd gan un cyfranogwr bod nodi a rhoi cymorth i'r fath yn hollbwysig os yw dysgwyr am ragori yn eu llwybr dewisol.

Gofynnwyd hefyd i'r cyfranogwyr sut ydynt yn credu bod dysgwyr yn gweld graddau F a G, ac i ba raddau maent yn eu gwerthfawrogi, ac a yw'r graddau hyn yn cael eu gweld yn wahanol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi bod graddau F a G yn cael eu hystyried mewn ffordd negyddol a bod dysgwyr yn cysylltu graddau F a G gyda methiant. Teimlwyd bod graddau F a G yn aml yn gyfystyr â gradd U, neu gyfystyr â pheidio â chael cymhwyster o gwbl.

"Byddai dysgwyr yn dweud 'o, does gen i ddim byd'."

Roedd nifer o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud mai dim ond ychydig o raddau sy'n cael eu hystyried yn werthfawr. Roedden nhw wedi ategu'r farn mai gradd C yw'r pwynt pasio. Yn wir, disgrifiodd un person sut mae dysgwyr yn mewn ysgolion cynradd yn nodi'u cynnydd yn erbyn

gradd C, gan ddangos sut mae safbwyntiau o'r fath wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym myd addysg. Dywedodd un person a gafodd ei holi y gall y radd D gael ei weld yn werthfawr, ond dim ond am ei fod yn dangos bod y dysgwyr *"yn agos iawn [i radd C]"*. Roedd rhai wedi egluro bod graddau F a G yr un mor 'bell' o drothwy C, a bod nifer y graddau sydd rhyngddynt a C yn digalonni dysgwyr.

Dywedodd rhai bod yr ystyriaethau negyddol sy'n ymwneud â graddau un yn cael eu hatgyfnerthu gan ysgolion, colegau a rhieni ac y byddai newid ffordd o feddwl dysgwyr yn gofyn am ymdrech ar y cyd *"ar bob cam o fyd addysg"*.

"Dwi'n credu eu bod yn eu gweld fel methiant... mae ieithwedd ysgolion a cholegau yn atgyfnerthu hynny hefyd."

Tynnwyd sylw hefyd at effeithiau graddau F a G ar ddysgwyr. Roedd rhai a gafodd eu holi wedi egluro bod dysgwyr yn teimlo fel methiant, a bod hyn yn effeithio ar eu hyder, eu hunan-barch a'u cymhelliant. Trafodwyd y berthynas gylchol rhwng perfformiad gwael a hunan hyder gwael hefyd. Roedd un cyfranogwr wedi egluro bod hunanddelwedd negyddol yn aml yn cyfrannu at berfformiad gwael a bod cael graddau F a G yn gwaethygu hunan hyder.

Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried ar gyd-destun y sefyllfa wrth fesur i ba raddau y mae dysgwyr yn edrych ar raddau F a G mewn ffordd negyddol. Gall dysgwyr gysylltu graddau F a G gyda methiant os ydynt yn cael eu rhoi mewn dosbarth lle mae dysgwyr yn cyrraedd graddau lefel dau, ond mae'n bosibl y gallai'r safbwynt newid pe bai dysgwyr yn cael eu rhoi mewn amgylchedd gyda dysgwyr sy'n cyrraedd graddau tebyg. Yn yr un modd, gallai cael gradd F fod yn ffafriol os yw'n dangos cynnydd, neu os oedd yn ymgais gychwynnol mewn arholiad. Mae'n werth nodi bod y rhai a gafodd eu holi wedi dweud na fyddai dysgwyr yn gweld graddau F a G mewn ffordd gadarnhaol os mai hyn oedd eu canlyniad terfynol.

Teimlwyd y gallai graddau F a G gael eu gwerthfawrogi gan grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rhai hynny sydd wedi cofrestru ar gyfer darpariaeth ILS. Gall dysgwyr o'r fath weld graddau F a G *"fel cyflawniad o ryw fath"*. Dywedodd cyfranogwr arall bod graddau G yn rhoi mynediad i nifer o ddysgwyr i'r coleg sy'n rhywbeth i'w ddathlu.

Roedd pwynt pellach a godwyd yn tynnu sylw at y ffaith bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r graddau hyn am eu bod yn deall y gwahaniaeth rhyngddynt a'r hyn sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd.

"Maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi am fod gwahaniaeth o radd rhwng F a G. Mae angen cael dealltwriaeth glir o beth sydd angen i ddysgwyr ei wneud i droi gradd G yn radd F."

Yn olaf, gall dysgwyr werthfawrogi gradd F yn fwy na gradd G, Nododd dau gyfranogwr y gall dysgwyr ystyried bod gradd G o werth tebyg i radd U. Roeddent wedi egluro nad yw gradd G *"yn golygu unrhyw beth"* i ddysgwyr a'u bod yn cwestiynu a yw G gyfystyr â gradd. Ar y llaw arall, mae gradd F yn dal i fod yn destun sgwrs a'i fod yn *"cael ei ystyried fel rhyw fath o gymhwyster TGAU"*. Mae'n bwysig nodi, y dylid cofio bod yr ymatebion a ddarperir uchod yn dod o safbwyntiau staff canolfannau, yn hytrach na'r dysgwyr eu hunain, a bod angen gwneud gwaith pellach gyda dysgwyr i ddeall eu safbwyntiau'n llawn.

Effeithiau cyfuno graddau F a G

Effeithiau ar ddysgwyr

Gofynnwyd i'r rhai a gafodd eu holi a fyddai gyfuno graddau F a G yn cael unrhyw effaith. Teimlwyd y gallai cyfuno gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Er enghraifft, gall cyfuno'r radd G i'r radd F olygu bod dysgwyr, sydd fel arfer yn cael graddau G, yn edrych ar eu graddau mewn ffordd fwy cadarnhaol. Dywedodd un aelod o staff *"y gallen nhw feddwl, wel dwi heb gael G, felly dwi wedi gwneud yn dda."* Yn yr un modd, ategodd un cyfranogwr y byddai gradd F yn cael ei ystyried yn fwy gwerthfawr na gradd G.

Roedd cyfuno'r graddau hefyd yn cael ei ystyried fel ffactor a allai wella cymhelliant dysgwyr. Eglurodd y cyfranogwr y byddai'r raddfa yn lleihau, gan olygu mai E yw'r radd sydd uwchben y radd gyfunol. O ganlyniad, gall dysgwyr gael eu cymell i weithio er mwyn gwneud cynnydd. Roedd rhai wedi nodi y byddai'r radd gyfunol yn golygu bod dysgwyr yn teimlo'u bod yn nes at radd C (hyd yn oed os yw nifer y marciau'n aros yr un fath), ac y gallai hyn eu hannog i gyrraedd cymhwyster lefel dau. Fodd bynnag, pwysleisiodd un y byddai hyn yn dibynnu ar ddiddordeb y dysgwr yn y cwrs, a heb rywfaint o frwdfrydedd yn y pwnc, ni fyddai cyfuno'r ddwy radd yn gwneud gwahaniaeth.

"Ni fydd gradd C yn teimlo fel nod rhy bell o gyrraedd y dysgwyr am nad oes cymaint o lythrennau rhyngddynt."

Codwyd pwynt ychwanegol a oedd yn tynnu sylw y byddai cyfuno yn golygu bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer yr un llwybr dysgu. Byddai hyn wedyn yn cynyddu nifer y myfyrwr ar gwrs penodol. O ganlyniad, byddai dysgwyr yn teimlo'n llai ynysig ac yn teimlo mwy o gymhelliant i ddatblygu am y byddent *"yn yr un sefyllfa â'r gilydd"*.

Fodd bynnag, nodwyd rhai effeithiau negyddol posibl cyfuno'r ddwy radd. Yn wahanol i'r farn y gall dysgwyr â graddau G edrych ar eu graddau yn fwy ffafriol, nododd un cyfranogwr y gall dysgwyr gyda graddau F weld eu canlyniadau mewn ffordd negyddol am y byddant yn cael eu *"llusgo i waelod y raddfa"*. Ategodd cyfranogwr arall y gallai cyfuno'r graddau effeithio ar ddysgwyr ILS, yn enwedig am y gallant werthfawrogi graddau F a G a'r gallu i fesur eu cynnydd rhwng y graddau. Yn yr un modd, roedd un aelod o staff wedi egluro na fyddai dysgwyr yn cael cydnabyddiaeth am eu cynnydd. Nododd bod hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sydd wedi cael graddau G am eu bod yn *"teimlo'u bod yn cynyddu ar hyd mwy o gamau na dysgwyr gradd F, a dylid cydnabod hyn."*

Ar ben hynny, yn groes i'r farn a nodwyd uchod, eglurodd un cyfranogwr y gallai cofrestru dysgwyr ar yr un cwrs olygu nad ydynt yn datblygu'n ddigonol. Gallai dysgwyr â graddau F weld y cwrs yn rhy hawdd, a gall dysgwyr gyda graddau G weld y cwrs yn rhy anodd; *"gallai lefel y sgil fod yn rhy uchel i ddysgwr gradd G allu datblygu'n hwylus ar gwrs Skills Forward neu raglen SHC, neu gallai fod yn rhy isel i ddysgwr gradd F allu datblygu'i sgiliau'n ddigon da i lwyddo ar y rhaglen Skills Forward."* Roedd wedi egluro y gallai hyn ddylanwadu ar gymhelliant dysgwr, gan effeithio ar ei hyder, ei bresenoldeb a chynyddu'i debygolrwydd o gael statws NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Effeithiau ar golegau

Roedd rhai o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud nad ydynt yn rhagweld y bydd cyfuno'r ddwy radd yn effeithio ar golegau. Roeddent wedi ategu nad oes modd gwahaniaethu rhwng graddau F a G a bod lefel y sgil y mae'r ddwy radd yn ei ddangos yn debyg iawn. Teimlwyd y byddai'r cyrsiau sydd ar gael, y broses o neilltuo dysgwyr i lwybrau dysgu, a'r cymorth a roddir yn aros yr un fath.

"Dydw i ddim yn meddwl y byddai staff yn dweud, mae angen i mi wybod pa rhai o'r dysgwyr sydd wedi cael graddau G oherwydd dwi ddim yn siŵr ei fod yn profi unrhyw beth iddyn nhw."

Nododd un a gafodd ei holi y gallai cyfuno graddau F a G nodi'r marc ar gyfer trothwy lefel un, gan annog colegau i ailasesu eu meini prawf mynediad er mwyn bod yn fan cychwyn i ddysgwyr sy'n addas ar gyfer darpariaeth lefel un.

"Gallai galluogi colegau i ail-lunio'u gofynion mynediad, byddai'n ein galluogi i osod meincnod a chyrraedd trothwy lefel un a all fod yn fan cychwyn da iawn."

Fodd bynnag, nododd un cyfranogwr y gallai cyfuno ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng dysgwyr a'u neilltuo i'r rhaglen ddysgu fwyaf priodol. Gallai colegau golli dysgwyr ar y cyrsiau lefel mynediad/lefel un sydd ar gael. Yn yr un modd, eglurodd unigolyn arall y gallai cyfuno olygu bod dysgwyr a fyddai fel arfer yn cael eu gwahaniaethu ar lwybrau dysgu gwahanol yn cael eu rhoi yn yr un grŵp ar gyfer yr un ddarpariaeth, a all arwain at broblemau staffio posibl. Er y byddent yn defnyddio asesiadau cychwynnol i deilwra'r cyrsiau cywir i ddysgwyr, ychwanegwyd y byddai angen iddynt ailystyried y broses asesu gychwynnol am fod rhai dysgwyr *"yn rhuthro drwyddi ac yn cael asesiad cychwynnol sydd llawer yn is na'u gallu"*.

Hefyd, roedd ymdeimlad y gallai cyfuno ei gwneud yn anodd cymharu canlyniadau TGAU gyda chanlyniadau cymwysterau eraill wrth adolygu proffil graddau dysgwyr wrth ystyried gofynion mynediad. Roedd un a gafodd ei gyfweld wedi defnyddio Bagloriaeth Cymru fel enghraifft (yn benodol y Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaenol). Holodd a fyddai pas yn cyfateb i radd G ac a fyddai pas* yn cyfateb i F, a sut y byddai cyfuno'r graddau yn effeithio ar y gymhariaeth hon. Eglurodd y byddai angen i staff ddeall unrhyw newidiadau i'r raddfa gradd, a sut y bydd yn cyd-fynd â modelau graddio eraill, os ydynt am ddarparu'r cyngor a'r arweiniad cywir.

Effeithiau ar athrawon a rhanddeiliaid ehangach

Yn ogystal â'r canlyniadau posibl y bydd dysgwyr a cholegau yn eu profi, roedd rhai a gafodd eu holi wedi tynnu sylw at yr effeithiau cadarnhaol ar athrawon. Nodwyd bod nad oes gan athrawon ddealltwriaeth helaeth o'r gwahaniaeth rhwng F a G, ac y byddai cyfuno'r graddau yn gwella dealltwriaeth staff y canolfannau. Dywedodd un cyfranogwr y *"gallai cyfuno bandiau'r cymhwysterau ei wneud yn fwy defnyddiol."* Yn debyg, dywedodd un unigolyn y gallai athrawon helpu dysgwyr sydd â lefelau gallu tebyg ar y cyd pe bai dysgwyr â graddau F a G yn cael eu cofrestru ar yr un rhaglen astudio.

"Fel athrawon, byddai'n well gennych eu cael nhw i gyd gyda'i gilydd i'w helpu gyda phopeth ar y lefel honno."

Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at effeithiau posibl newid y raddfa ar ddealltwriaeth rhanddeiliaid. Eglurodd rhai y gallai cyfuno achosi dryswch wrth gymharu'r raddfa gyda'r model 9-1 yn Lloegr. Mae'n werth nodi nad oedd y cyfranogwyr yn gwybod llawer am y raddfa 9-1, a'r nifer is o raddau lefel un (a fyddai'n hwyluso'r gwaith o gymharu).

Effeithiau cadarnhaol ail-enwi

Wrth drafod effeithiau posibl cyfuno, roedd y cyfranogwyr wedi ystyried effaith ail-enwi graddau F a G. Roedd nifer wedi dweud y byddent yn croesawu ail-enwi'r graddau er mwyn herio'r camargarffiadau ynglŷn â methiant. Roedd y cyfranogwyr wedi cynnig sawl awgrym sy'n ymwneud ag enw'r radd gyfunol, gan gynnwys:

- Pàs
- Pàs lefel mynediad
- Pàs sylfaenol
- Pàs lefel un
- Agos at radd
- Atgyfeirio
- F

Roedd rhai yn teimlo y byddai ail-enwi graddau F a G yn cydnabod dysgu'r myfyrwyr ac yn golygu y byddant yn rhoi mwy o werth ar eu cymhwysterau. Roedd y cyfranogwyr wedi egluro y gallai hyn annog dysgwyr i ddatblygu am y byddent yn teimlo mwy o gymhelliant i weithio tuag at nod sydd wedi'i fframio fel 'pàs' - yn lle F neu G. Roedd un a gafodd ei holi wedi dweud y gallai cael 'pàs lefel un' yn cymell dysgwyr i symud ymlaen i'r coleg.

Roeddent hefyd yn teimlo y byddai ail-enwi graddau F a G yn cael effaith gadarnhaol ar hyder y dysgwyr; gall y dysgwyr edrych ar y radd gyfunol mewn ffordd fwy positif a gall hyn ddylanwadu ar yr hyn y maent yn meddwl o'i hunain. Roedd un wedi cyfleu'r ffordd y mae dysgwyr "*wedi digalonni*" ar hyn o bryd a'u bod yn profi "*pryder corfforol*", ac y gall ail-enwi graddau F a G leddfu rhai o'r teimladau hyn.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y gallai ail-enwi graddau F a G wneud gallu'r dysgwr yn fwy clir; byddai dysgwyr yn deall eu bod wedi pasio'u TGAU, ond ar lefel benodol. Roedd un cyfranogwr wedi egluro y byddai ail-enwi graddau F a G fel 'pàs lefel un' yn dangos yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr; byddai'n eu harwain i'r cyfeiriad cywir ac i'r llwybrau datblygu addas.

"Mae'n gwella'r meddylfryd a'r ymwybyddiaeth a yw dysgwyr yn addas ar gyfer rhai cyrsiau."

Roedd rhai wedi tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol ail-enwi graddau F a G ar golegau. Er enghraifft, gellid defnyddio'r radd sydd wedi'i hail-enwi fel dull marchnata i annog dysgwyr i wneud cais ar gyfer cyrsiau. Byddai ail-enwi'r radd gyfunol yn 'pàs lefel un' hefyd yn cyd-fynd gyda'r 'raddfa lefelu' a ddefnyddir gan randdeiliaid ehangach (fel cyflogwyr neu sefydliadau addysg uwch) a bydd yn hwyluso'r broses o gymharu galluoedd dysgwyr ar draws y cymhwysterau. Yn yr un modd, byddai enwi'r radd gyfunol yn 'pàs lefel un' yn ddefnyddiol wrth adolygu graddau dysgwyr yn erbyn meini prawf mynediad.

Ar ben hynny, gallai ail-enwi'r radd gyfunol yn 'pàs lefel un' wneud pethau'n gliriach i randdeiliaid ehangach. Nodwyd y gallai rhieni, prifysgolion a chyflogwyr ddatblygu gwell dealltwriaeth o lefel gallu dysgwyr. Eglurodd un y gallai cyfuno'r graddau newid meddylfryd rhanddeiliaid; gallai 'pàs lefel un' bwysleisio gwerth y cymhwyster a gafwyd, a newid y meddylfryd sy'n ymwneud â dysgwyr sy'n cael graddau lefel un.

Effeithiau negyddol ail-enwi

Er bod y cyfranogwyr yn cytuno gydag ail-enwi graddau F a G i herio'r ymdeimladau o fethiant, roedd rhai wedi nodi problemau posibl. Er enghraifft, ystyrir bod gradd D neu E hefyd yn fethiant. Felly, byddai cyfuno ac ailenwi graddau F a G yn annigonol i herio'r canfyddiadau negyddol. Gallai enwi'r radd gyfunol yn 'pàs' hefyd olygu y byddai dysgwyr sy'n cael graddau E yn teimlo eu bod wedi gwneud yn waeth na'r rhai sydd wedi cael y radd gyfunol.

Roedd rhai yn teimlo y gallai enw'r radd gyfunol yn 'pàs' achosi dryswch. Dywedodd un person bod hynny oherwydd bod pob gradd TGAU yn cael ei hystyried yn radd basio i ryw raddau. Gallai ail-enwi gradd F/G yn 'pàs' godi cwestiynau am ystyr y radd neu wrth ddehongli'r raddfa graddio. Gallai hefyd achosi dryswch ymysg rhanddeiliaid sy'n ystyried C fel y marc pasio. Esboniodd un aelod o staff y gallai galw'r radd gyfunol yn 'pàs' "*newid hynny ychydig*".

Ar ben hynny, roedd un a gafodd ei holi wedi pwysleisio y byddai problemau'n codi o alw'r radd gyfunol yn 'pàs lefel un' am "*eu bod yn astudio ar gyfer cymhwyster lefel dau*". Aeth yn ei flaen drwy ddweud pe bai'r radd gyfunol yn cael ei henwi'n 'pàs lefel un', byddai pobl yn cymryd yn ganiataol bod hyn gyfwerth â chymwysterau galwedigaethol lefel un. Fodd bynnag, byddai dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer yr ail raglenni "*fwy na thebyg yn cyrraedd safon uwch na F neu G*." Roedd rhai wedi dweud y gallai ei alw'n 'pàs lefel un' olygu bod dysgwyr yn cymryd y byddant yn cofrestru ar gyfer darpariaeth lefel dau. Eto i gyd, byddai dal angen i ddysgwyr "*ddilyn rhaglen lefel un lawn*". Dywedodd un cyfranogwr efallai na fydden nhw'n barod i ddilyn cymhwyster lefel dau gan na fyddai ganddyn nhw'r "*sgiliau dadansoddol, llythrennedd a rhifedd*" priodol i wneud hynny.

Dywedodd eraill, er mai bwriad ail-enwi'r graddau F a G fyddai chwalu'r cysylltiadau negyddol â methiant, gallai symud i ffwrdd o ddilyn trefn yr wyddor a galw'r radd yn 'pàs' neu 'pàs lefel un' greu ail haen o raddau; gallai labeli'r dysgwyr hynny'n "*rhai a fethodd â chael TGAU*." Fodd bynnag, ni fyddai dilyn trefn yr wyddor a chael gradd F yn llwyddo i wneud gwahaniaeth i safbwyntiau dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach. Er mwyn herio safbwyntiau negyddol, roedd rhai'n dadlau y byddai angen newid y model raddio.

"Fel dwi wedi'i ddweud, a oes angen newid y system gyfan, yn hytrach na dim ond yr un radd honno."

"Dwi ddim yn credu y bydd cyfuno yn datrys hyn, dwi'n credu bod angen i ni ail-edrych ar system raddio TGAU er mwyn ei wneud yn fwy buddiol."

Effeithiau newid ffiniau'r graddau

Yn ogystal â phryderon a godwyd yn ymwneud ag enw'r radd gyfunol newydd, roedd cyfranogwyr wedi codi effeithiau posibl newid ffiniau'r graddau yn y ffordd y mae'r marciau'n cael eu dosbarthu. Er enghraifft, os caiff y ffin i gael gradd G ei chodi, roedd y cyfranogwyr

wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai llai o ddysgwyr yn cael cymhwyster TGAU. Eglurodd un a gafodd ei holi y byddai hynny'n effeithio ar gynnydd dysgwyr am na fydden nhw'n cwrdd â'r meini prawf mynediad ar gyfer darpariaeth lefel un. Er hynny, roeddent wedi nodi y gallai dysgwyr dal symud ymlaen i'r coleg a chofrestru ar gyfer rhaglen astudio, ond ar lefel mynediad.

Fodd bynnag, esboniodd un cyfranogwr nad yw o reidrwydd yn gwrthwynebu cynyddu ffin gradd G. Pe bai dysgwyr yn cael gradd ddi-ddosbarth, byddai'n rhoi'r argraff bod naill ai angen iddynt gael cymorth pellach neu fod angen iddynt ymrwymo'n well i'w hastudiaethau. Gallai hyn o bosib newid agwedd a chymell dysgwyr i wella. Roedd wedi pwysleisio os byddai dysgwyr yn cael U, gallai hyn hefyd agor sgwrs am ddarpariaeth amgen. Roedd ymdeimlad y dylid sicrhau bod dewis mwy hygyrch o gymwysterau ar gael i ddysgwyr sy'n methu â chyrraedd trothwy lefel dau, sy'n aml yn cael ei weld fel pàs ar gyfer TGAU.

"A bod yn onest, er ei fod o bosibl yn rhoi pobl dan anfantais, gallai fod yn fuddiol o ran agor dadl bod angen i ni gynnis llwybrau amgen i bobl ifanc sydd ddim yn mynd i basio'u harholiadau TGAU."

Ychwanegodd y byddai cynyddu isafswm y marciau sydd eu hangen i gael gradd hefyd yn cynnal gwerth gradd F, tra byddai cyfuno'r marciau a chreu ffin ehangach yn golygu bod y radd F yn troi i fod y radd G newydd.

"Os oes mwy o bobl yn cael gradd ddi-ddosbarth, byddai F yn dal i fod yr un mor werthfawr ag y mae ar hyn o bryd."

Dywedodd un arall a gafodd ei holi y byddai cynyddu ffin gradd G yn effeithio ar ddata ysgolion; os yw ysgolion yn nodi canran uchel o ddysgwyr sy'n pasio'u harholiadau TGAU, byddai'r ganran hon yn gostwng am y bydd nifer y dysgwyr sy'n cael gradd U yn gostwng. Dywedon nhw y gallai cynyddu ffin G effeithio ar addysgu oherwydd y pwysau ar ysgolion i wella marciau dysgwyr er mwyn cyrraedd y marciau sydd eu hangen i gyrraedd y radd gyfunol.

"Gan ddibynnu ar nifer y graddau G a gawsoch chi, byddai angen i chi wedyn edrych ar hynny a sylwi, yn eich sefydliad chi, mae 15-20% o'r dysgwyr yn cael gradd G, felly mae eich 95% chi bellach yn 75%, felly byddai'n effeithio ar sefydliadau."

Eglurodd eraill y byddai'n bwysig i beidio â chynyddu'r trothwy ar gyfer C, gan nodi y byddai hyn ei gwneud yn llai posibl i ddysgwyr gyrraedd y radd. Roedd un wedi egluro y byddai cynyddu nifer y marciau rhwng D a C yn arwain at anawsterau wrth wahaniaethu rhwng dysgwyr. Yn ogystal, byddai cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n ceisio ailsefyll eu TGAU, a "*dal ddim yn cyrraedd C*". Nododd bod symud o radd D i radd C yn gam anodd i nifer.

Yn olaf, ategodd un y gallai canfyddiadau dysgwyr o'u graddau newid os yw ffiniau graddau'n cael eu newid; os yw llai o farciau rhwng gradd C a'r radd gyfunol, yna gallai dysgwyr edrych ar eu gradd mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Effeithiau anghymesur ar ddysgwyr

Yn ogystal â'r effeithiau a nodwyd uchod, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried a allai cyfuno'r ddwy radd effeithio ar rai dysgwyr yn fwy nag eraill. Eglurodd rhai nad oedden nhw'n rhagweld

unrhyw effeithiau. Nododd un person, pe bai atgyfnerthu'n cael effaith anghymesur, ni fyddai'r effaith honno'n negyddol "*oherwydd byddai'n helpu moral myfyrwyr a fyddai'n cael gradd G.*"

Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y gallai cyfuno fod o anfantais i ddysgwyr ar drothwy gradd E. Esboniodd un cyfranogwr y byddai dysgwyr a fyddai'n agos i gael E yn cwmpo i waelod y raddfa. Yn unol â hynny, teimlwyd y gallai dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol a dull addysgu wedi'i deilwra gael eu hanwybyddu am y byddent yn mynd 'ar goll' yn y radd gyfunol newydd.

Dywedodd cyfranogwyr eraill y byddai effeithiau cyfuno yn debygol o gael eu teimlo gan ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig. Pe bai cyfuno yn arwain at gynyddu ffin y radd isaf, gallai hyn roi rhai dysgwyr dan anfantais am y byddent yn cael llai o gymwysterau TGAU.

"Yn dibynnu ar sut [y gallai] ymddangos, bydd grŵp o ddysgwyr yno sydd ddim yn cyrraedd y lefel gofynnol.. felly pam nad yw dynion du yn llwyddo yn eu harholiadau TGAU?"

Yn yr un modd, pwysleisiodd cyfranogwyr eraill y byddai dysgwyr o gefndiroedd socio-economaid mwy difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gyfuno am mai "*nhw yw'r bobl sy'n cael y graddau yna*".

Ategodd un person y byddai dysgwyr ag ADY o bosib yn teimlo effeithiau cyfuno. Fodd bynnag, bwriad ei goleg yw dechrau peidio â chynghori dysgwyr ADY i eistedd cymwysterau graddedig a'u hannog i ddilyn rhaglenni dysgu sy'n fwy seiliedig ar brofiad. Oherwydd hyn, efallai na fydd y grwpiau hyn o ddysgwyr o reidrwydd yn cael eu heffeithio gan effeithiau posibl cyfuno'r graddau.

Effaith ar ddatblygiad dysgwyr yn dilyn AB

Er mwyn penderfynu ar yr effaith ar lwybrau dysgwyr yn y dyfodol, gofynnwyd i'r cyfranogwr a fyddai cyfuno'n effeithio ar eu datblygiad yn dilyn AB. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl gafodd eu holi nad ydyn nhw'n rhagweld unrhyw effeithiau ar ddatblygiad y dysgwyr. Esboniodd un cyfranogwr fod AB yn tueddu i fod yr unig ddarparwr sy'n ystyried graddau o dan y ffin D. Teimlwyd bod graddau F a G yn cael eu defnyddio fel man cychwyn, a'r bwriad oedd bod dysgwyr yn symud ymlaen yn eu maes dewisol, gan eu galluogi i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gymryd eu camau nesaf.

"Os yw AB wedi gwneud ei waith, yna byddai dysgwyr wedi ennill y cymwysterau a'r sgiliau i'w galluogi i symud ymlaen."

Dywedodd un aelod o staff y gallai cael gwared ar y radd G ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddilyniant dysgwyr gan nad yw graddau G yn cael eu hystyried o werth gan brifysgolion na chyflogwyr. Yn yr un modd, dywedodd un ohonynt y gallai cyfuno "*helpu mewn rhai ffyrdd achos gall cyflogwyr...o bosibl weld mwy o werth yn y graddau F hynny... dwi'n credu y gallai fod yn fuddiol mewn rhai ffyrdd.*"

Roedd eraill yn nodi y byddai llwybrau dilyniant yn cael eu heffeithio os nad yw dysgwyr yn cael gradd C ar lefel TGAU. Roedden nhw wedi tynnu sylw at y ffaith mai'r radd C yw'r ffin ar gyfer llawer o lwybrau, yn enwedig ar gyfer rhaglenni addysg uwch (AU). Oherwydd hyn, efallai na fydd dysgwyr sy'n cael graddau lefel un mewn TGAU yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth AU. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwr o'r farn na fyddai hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n

ennill graddau F a G. Ar ben hynny, nodwyd mai ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael graddau F neu G yn bwriadu mynd ymlaen i AU.

"Yr unig adeg y gallai effeithio arnyn nhw yw ar y pwynt datblygu AU lefel tri, ond i fod yn onest nid yw hynny'n ymwneud â'r radd F na'r G, mae'n ymwneud â'r radd C."

Dim ond un a oedd wedi nodi effeithiau cyfuno ar lwybrau datblygu i ddysgwyr sydd â mwyafrif o F a G. Roedd wedi ail-bwysleisio y gallai cyfuno olygu nad yw dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol, ac o ganlyniad byddant yn colli cymhelliant ac yn methu â chyrraedd y radd C honno sydd ei hangen i gael mynediad i ddarpariaethau penodol yn dilyn AB.

Cyfuno pellach i raddau lefel un

Roedd yr ymchwil hon wedi edrych ar yr opsiwn o atgyfnerthu graddau F a G. Ni ystyriwyd cyfuno pellach o ystyried gwerth canfyddedig graddau D ac E ymhlith rhanddeiliaid. I gadarnhau hyn, gofynnwyd i gyfranogwyr a allai cyfuno pellach fod yn rhywbeth y dylai Cymwysterau Cymru ailystyried. Ar y cyfan, cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr na fydden nhw'n cefnogi cyfuno pellach i raddau D ac E. Roedden nhw wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaeth clir rhwng y graddau D ac E, a bod y graddau hyn yn cael eu defnyddio'n wahanol. Er enghraifft, fe'u defnyddir fel meini prawf mynediad ar gyfer cyrsiau penodol ac i "*sicrhau bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar y cwrs sydd ar lefel addas iddynt.*" Roedd graddau D ac E hefyd yn cael eu gweld yn hanfodol er mwyn nodi pa ddysgwyr y dylai ailsefyll eu TGAU, a pha raglen ailsefyll y dylent ei dilyn.

"Mae'r radd D ac E wir yn helpu i roi cyfle i ddysgwyr gael ymuno â rhaglen ailsefyll, yn enwedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd, boed hynny'n rhaglen flwyddyn neu'n ddwy flynedd. Fyddwn i ddim yn hoffi gweld y rheiny'n cael eu cyfuno neu eu dileu."

Nododd rhai cyfranogwyr, er eu bod yn dal i gael eu defnyddio'n helaeth, mae effaith trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 a 2021 yn golygu y bydd yn cymryd amser i'r graddau hyn sefydlogi.

Dim ond un cyfranogwr a nododd y byddai cyfuno pellach yn cael ei groesawu. Egluron nhw nad oes llawer o wahaniaeth rhwng graddau E, F a G ac mai ychydig o farciau sydd eu hangen i symud o G i E. Ychwanegon nhw, er y dylai'r radd E gael ei chyfuno, ni ddylid ei ymestyn i'r radd D o ystyried ei ddefnydd o adnabod dysgwyr "*sy'n agos at y C*".

Newid ehangach

Yn ogystal ag archwilio'r opsiwn o gyfuno graddau F a G, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oes angen cyflwyno newid ehangach i'r raddfa. Dywedodd rhai cyfranogwyr na fydden nhw am weld newid i'r raddfa. Roedd y rhesymau yn cynnwys: bod y raddfa bresennol yn glir iawn; cydnabyddir y raddfa'n dda ymhlith rhanddeiliaid a rhoddir gwerth arni; ac mae'r raddfa wedi'i gwreiddio'n dda ar draws y system addysg. Dywedodd un y byddai cyflwyno newid yn debygol o gymhlethu dealltwriaeth cyflogwyr gan gyfeirio at y dryswch a achoswyd gan newid i'r raddfa yn Lloegr fel enghraifft.

"Gyda graddfa Lloegr, y raddfa 9-1, mae amwysedd o beth fyddai gradd C. Ai 4 neu 5 fyddai?"

Gostwng nifer y graddau TGAU

Ar y llaw arall, dadleuodd rhai bod angen newid ehangach i'r raddfa. Dywedodd y rhai gafodd eu holi bod y raddfa A*-G yn rhy wahaniaethol, a bod y gwahaniaeth rhwng graddau F a G ddim yn amlwg, ac y byddai graddfa lai yn haws ei deall. Nododd un cyfranogwr fod graddfa lai yn cynnig y posibilrwydd o gyflwyno graddfa sydd wedi'i labelu'n gadarnhaol. Y teimlad oedd y gallai hyn wella cymhelliant, gan y byddai'r graddau'n cael eu hystyried o fwy o werth.

Ategodd eraill y rhoddir ychydig iawn o werth ar raddau F a G. Ychwanegodd un person, o ystyried bod gradd C yn cael ei weld fel y trothwy ar gyfer pas, mae gradd G yn ymddangos yn ddiangen gan ei fod mor "*bell i ffwrdd [o radd C]*". Roedd awgrymiadau'n amrywio o ddod â'r raddfa i ben ar y radd E, i ddod â'r raddfa i ben ar y radd C a chadw'r U ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cyflawni hyn. I'r gwrthwyneb, nododd un cyfwelai y dylid cael gwared ar y radd U, gan dynnu sylw at y ffaith bod rhoi U i ddysgwyr yn "*llym*".

Roedd rhai yn teimlo y dylai graddfa graddio TGAU gyd-fynd â chymwysterau eraill; nododd un aelod o staff fod graddfa TGAU "*yn wahanol gyda'i defnydd o A*-G*". Eglurodd y gallai symud at fodel 'pas, teilyngdod, anrhydedd' gyd-fynd â chymwysterau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru. Yn yr un modd, amlygodd dau a gafodd eu holi y byddai'n ddefnyddiol cysoni'r raddfa graddio TGAU â'r raddfa Safon Uwch, sef A*-E. Roedden nhw'n dadlau y byddai hyn yn gwella dealltwriaeth o'r raddfa ymhlith rhanddeiliaid "*oherwydd byddai popeth yn gyson*." Ar ben hynny, ychwanegon nhw y byddai gostwng y raddfa i A*-E yn sicrhau bod dysgwyr wedi dangos cryn dipyn o wybodaeth a sgil yn y pwnc.

"Gallai symleiddio'r raddfa ymhlith cymwysterau TGAU a Safon Uwch olygu ein bod i gyd yn gweithio gyda'r un fframwaith."

Cadw nifer y graddau TGAU

Cynigiodd un cyfranogwr y syniad o gadw nifer y graddau ond ail-lansio'r raddfa. Roedd wedi argymhell cadw'r graddau A*-C ar gyfer cymwysterau lefel dau, ond ailenwi'r graddau lefel un er mwyn gwella'r gwerth canfyddedig. Gellid ail-enwi'r graddau lefel un fel 'pàs lefel un', 'teilyngdod lefel un' ac 'anrhydedd lefel un'. Nododd y byddai hyn yn hawdd i randdeiliaid ei deall.

Cynyddu nifer y graddau TGAU

Dywedodd un cyfranogwr arall y dylid cynyddu nifer y graddau lefel dau. Dywedodd nad yw gradd B mewn gwyddoniaeth yn aml yn arwydd o wybodaeth gadarn. Byddai ystod uwch o raddau ar frig y raddfa yn hwyluso'r gwaith o wahaniaethu ac yn cynorthwyo dysgwyr i wneud gwell penderfyniadau o ran "*cyrsiau sy'n addas iddyn nhw*." Cytunodd un arall gafodd ei holi, gan ddweud y byddai cynyddu nifer y graddau lefel dau yn cynyddu trylwyredd y cymhwyster. Roedd o'r farn y byddai dilysrwydd graddau A ac A* gwella pe bai llai o ddysgwyr yn eu cyrraedd.

Awgrymiadau eraill

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys datblygu graddfa unedig ar draws y lefelau cymwysterau gwahanol. Teimlwyd y byddai hyn yn gwella dealltwriaeth o allu dysgwr a'r camau sydd angen eu cymryd iddynt ddatblygu o fewn y raddfa. Dywedodd un cyfranogwr y byddai graddfa unedig hefyd yn gwella'r tegwch rhwng cymwysterau cyffredinol a chymwysterau galwedigaethol gan na fydden nhw bellach yn cael eu gwahanu gan y model raddio. Fodd bynnag, dywedodd un a gafodd ei holi nad yw graddfa graddio TGAU yn cyfateb i'r model galwedigaethol. Dywedodd nad yw pwyntiau perfformiad TGAU a chymwysterau galwedigaethol yn cyd-fynd.

"Mae pàs lefel un yn 25 pwynt, sy'n cwmpo rhwng gradd E, sef 28 pwynt a gradd F, sef 22 pwynt."

Ychwanegodd nad oes llawer o dryloywder ynglŷn â'r hyn sydd ei angen i gyrraedd yr holl raddau TGAU. I'r gwrthwyneb, mae cymwysterau galwedigaethol yn cael eu hystyried yn fwy tryloyw gan fod y cynlluniau marcio yn eglur o ran yr hyn sydd ei angen i gyrraedd pob lefel.

Awgrymwyd hefyd i gysoni'r raddfa TGAU rhwng Cymru a Lloegr. Er nad yw o reidrwydd yn hyrwyddo'r model 9-1, eglurodd un cyfranogwr y byddai'n bwysig i beidio â symud ymhellach i ffwrdd o'r raddfa TGAU a ddefnyddir yn Lloegr o ystyried y gallai hyn achosi dryswch ymhlith sefydliadau a chyflogwyr AU. Yn yr un modd, cododd un y cwestiwn a fyddai'r cymwysterau yng Nghymru yn cael eu gwerthfawrogi yn yr un ffordd, ac a fyddai modd rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o Gymru sydd dan anfantais.

"Dwi'n credu y byddai'n helpu i gael cysondeb rhwng Cymru a Lloegr, dwi'n gwybod yng Nghymru, ry'n ni eisiau bod ychydig yn wahanol, ond mewn gwirionedd nid yw mor syml â hynny i gyflogwyr ac i brifysgolion."

"Dwi'n meddwl mod i'n poeni weithiau, pan fydd dysgwyr yn dod allan o Addysg Bellach a'u bod am fynd i weithio y tu allan i Gymru, tybed a roddir yr un gwerth arnyn nhw."

Yn olaf, nododd rhai bod y drafodaeth yn amlygu'r angen am gyfres wahanol o gymwysterau i ddysgwyr sydd â gallu is. Pwysleisiodd un cyfranogwr na ddylai dysgwyr sydd â gallu is gael eu cofrestru ar gyfer TGAU, o ystyried gwerth cyfyngedig graddau F a G, ac y dylai cynnig arall fod ar gael iddyn nhw. Eglurodd nad yw cofrestru'r dysgwyr hynny ar gyfer cymwysterau TGAU yn diwallu'u hanghenion.

"I fi, nid yw'n rhoi sylw i anghenion y dysgwyr hynny. Mae'n eu gorfodi i'r broses honno, mae'n ffordd o dicio bocs, am mai dyna beth mae pawb arall yn ei wneud, ond ni ddylid gwneud hynny."

Casgliad

Mae'r casgliad canlynol yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr ymchwil hwn. Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf o bobl a gafodd eu holi bod dysgwyr sydd â'r rhan fwyaf o raddau F a dysgwyr sydd â'r rhan fwyaf G yn cael eu rhoi yn yr un grŵp wrth gael eu dyrannu ar gyfer rhaglen ddysgu. Dim ond ychydig o gyfranogwyr wnaeth dynnu sylw at wahaniaethu wrth eu dyrannu i'r elfen sgiliau o'u rhaglen ddysgu. Roedd y darlun yn fwy amrywiol pan ofynnwyd i gymharu'r broses o gofrestru dysgwyr oedd â graddau D neu E i'w rhaglen astudio. Yn nodedig, roedd y rhan fwyaf wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai llwybrau mynediad dysgwyr yn dibynnu ar broffil cyffredinol graddau ar draws gwahanol bynciau. Mae'n bwysig nodi bod y rhai a gafodd eu holi wedi egluro mai un dangosydd yn unig yw graddau TGAU a defnyddir

i benderfynu ar y rhaglen fwyaf addas i ddysgwyr. Roedd llawer o gyfranogwyr wedi nodi y caiff sgoriau asesiadau cychwynnol (sy'n cael eu cynnal ar ôl cofrestru fel arfer) eu defnyddio i benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf addas. Roedd y dangosyddion eraill yn cynnwys ADY, pryderon iechyd meddwl neu ffactorau amgylchiadol.

Nodwyd rhai defnydd ychwanegol o raddau F a G gan gyfranogwyr hefyd, gan gynnwys eu defnydd wrth fapio cynnydd dysgwyr a defnyddio eu graddau i gyfrifo'u targedau. Mae graddau F a G hefyd yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth i ddangos y gall fod angen cymorth pellach.

Ar ôl archwilio'r meddylfryd am raddau F a G, mae'n ymddangos nad oedd y rhan fwyaf o bobl a gafodd eu holi yn gweld gwahaniaeth rhwng y ddwy radd. Mae ffactorau sy'n gwahaniaethu yn tueddu i gynnwys ADY, presenoldeb, neu faterion ymddygiad, yn hytrach na gallu academaidd. Roedd y cyfranogwyr yn rhanedig o ran eu safbwyntiau ar werthoedd graddau F a G. Roedd tua hanner ohonynt o'r farn na roddir gwerth ar raddau F a G gan nodi bod eu gwerth yn isel iawn. Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfranogwyr eraill eu bod yn cael eu defnyddio fel: meini prawf mynediad; arwydd o ymrwymiad dysgwyr; neu ategwyd eu defnydd fel arwydd y gallai fod angen cymorth pellach. Mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi wedi nodi bod dysgwyr yn edrych ar raddau F a G mewn ffordd negyddol. Roedd rhai wedi tynnu sylw ar effaith negyddol graddau o'r faith ar hyder dysgwyr. Fodd bynnag, roedd y rhai a gafodd eu holi wedi nodi y gall safbwyntiau dysgwyr amrywio yn dibynnu ar y cyddestun. Er enghraifft, gall gradd F fod yn rhywbeth cadarnhaol os yw'n dangos cynnydd. Gall dysgwyr ILS hefyd edrych ar raddau F a G mewn ffordd gadarnhaol. Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud gwaith pellach ar safbwyntiau dysgwyr os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i newid y raddfa.

Ystyriodd y cyfranogwyr yr opsiwn o gyfuno graddau F a G yn ofalus. Cododd y rhai gafodd eu holi sawl effaith posibl. Er enghraifft, gall gael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae dysgwyr yn ystyried eu graddau, a rhoi hwb iddynt fynd ati i'w gwella. Un rheswm a godwyd oedd y byddai'r radd gyfunol newydd yn golygu bod y radd yn agosach at ffin E neu C. Roedd ymdeimlad hefyd y byddai dysgwyr yn teimlo'n llai ynysig o gael eu cofrestru ar yr un rhaglen. Fodd bynnag, roedd rhai wedi nodi y gall y newid hwn effeithio'n negyddol ar rai grwpiau o ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys y rhai a fyddai'n cael gradd F, neu ddysgwyr sy'n awyddus i ddilyn darpariaeth ILS. Pwysleisiodd un cyfranogwr y gallai cyfuno effeithio ar gymhelliant dysgwyr a fydd yn effeithio ar eu datblygiad.

Roedd rhai o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud nad ydynt yn rhagweld y bydd cyfuno'r ddwy radd yn effeithio ar golegau. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd wedi tynnu sylw at lwybrau dysgu gwahanol ar gyfer dysgwyr gyda gradd F neu G yn rhagweld y bydd cyfuno'r ddwy radd yn cael effaith. Roeddent wedi tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai llai o ddysgwyr gofrestru ar gyfer y cyrsiau sydd ar gael, neu y bydd mwy o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer cwrs penodol, gan arwain at broblemau staffio. Hefyd, noddodd un person y gallai cyfuno'r ddwy radd ei gwneud yn anodd cymharu canlyniadau'r dysgwyr o ran cymwysterau ehangach wrth adolygu'u proffil. Roedd pwynt arall a godwyd yn cyfeirio at yr effaith posibl y gall newid y raddfa ei gael ar ddealltwriaeth rhanddeiliaid.

Roedd llawer o gyfranogwyr wedi edrych ar effeithiau ail-enwi'r radd gyfunol. Teimlai rhai y gallai olygu bod dysgwyr yn rhoi mwy o bwysau ar eu cymwysterau, a fydd yn gwella'u cymhelliant i ddatblygu. Roedd eraill wedi dweud y gallai ail-enwi'r graddau amlygu lefel gallu'r dysgwyr a nodi'r llwybrau mwyaf priodol iddynt. Roedd cyfranogwyr hefyd wedi nodi y gallai'r radd gael ei hail-enwi mewn ffordd sy'n hwyluso'r gwaith o gymharu ar draws y cynnig cymwysterau.

Fodd bynnag, roedd rhai a gafodd eu holi wedi egluro na fydd cyfuno graddau F a G yn ddigonol o ran herio canfyddiadau negyddol oherwydd y byddai gradd D neu E hefyd yn cael eu gweld fel methiant. Tynnodd eraill at y syniad y gallai galw'r radd gyfunol newydd yn bàs (neu derm tebyg) achosi dryswch ymhlith rhanddeiliaid. Yn unol â hynny, roedd rhai yn teimlo y byddai enwi'r radd gyfunol yn bàs lefel un yn cysylltu'r radd gyda chymwysterau galwedigaethol lefel un. Roedd eraill wedi nodi y byddai peidio â dilyn trefn y wyddor o ran y raddfa heb gyflwyno newidiadau pellach yn creu ail haen o raddau.

Roedd effeithiau posibl newid ffiniau'r graddau hefyd wedi'u codi, yn benodol, er effaith o gynyddu nifer y marciau sydd eu hangen i gael gradd G. Roedd y rhai a gafodd eu holi wedi pwysleisio y byddai llai o ddysgwyr yn cael cymhwyster TGAU ac y byddai hyn yn cael effaith ar ddata perfformiad ysgolion. Roedd pryderon eraill wedi'u codi am effeithiau diwygio'r trothwy ar gyfer gradd C neu gynyddu'r marciau rhwng D a C, gan arwain at fwy o ddysgwyr yn ailsefyll eu harholiadau TGAU.

Yn ogystal ag archwilio'r cynnig i gyfuno graddau F a G, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddylid cyfuno graddau lefel un ymhellach. Cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr na ddylid cyfuno graddau D ac E. Roedden nhw wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaeth clir rhyngddynt, a bod y graddau hyn yn cael eu defnyddio'n wahanol. Roedd cyfranogwyr hefyd wedi ystyried a oes angen cyflwyno newid ehangach i'r raddfa graddio TGAU. Er bod rhai wedi dweud nad oed angen newid, nododd eraill y byddai diwygio'r raddfa yn cael ei groesawu, ond roedd yr awgrymiadau ymarferol i roi'r newid ar waith yn amrywiol. Roedd rhai wedi awgrymu y dylid gostwng y raddfa, am ei bod yn rhy wahaniaethol ar hyn o bryd neu oherwydd nid yw graddau lefel un yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn. Roedd cyfranogwr arall wedi cynnig cadw nifer y graddau ond ail-enwi'r cymwysterau lefel un gan ddefnyddio'r model pàs, teilyngdod, anrhydedd. Ar y llaw arall, roedd un cyfranogwr wedi dweud y dylid cynyddu nifer y graddau lefel dau i wahaniaethu ymhellach rhwng dysgwyr. Yn olaf, roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi cynnig awgrymiadau ehangach, fel datblygu graddfa graddio unedig i gwmpasu lefel un i dri, neu sicrhau mwy o gysondeb rhwng Cymru a Lloegr. Roedd rhai wedi dod i'r casgliad bod y drafodaeth yn amlygu'r angen i gael cynnig gwahanol mewn ysgolion, am nad yw cofrestru dysgwyr sydd â gallu is yn diwallu'u hanghenion.

Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2022) *Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19) Awst 2020 - Gorffennaf 2021 (ystadegau arbrol)*. Ar gael ar: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-02/outcomes-learners-post-16-education-affected-coronavirus-covid-19-pandemic-august-2020-july-2021-992.pdf> (Cyrchwyd: 13/06/2022).

Llywodraeth Cymru (2021) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym mlwyddyn 11/disgyblion 15 oed) fesul grŵp pwnc* Ar gael yn:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup> <<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup>> (Cyrchwyd 13/06/2022).

Atodiad 1

Coleg	Rhanbarth
Coleg Sir Gâr	Sir Gaerfyrddin
Coleg Cambria	Sir y Fflint a Wrecsam
Grŵp Colegau NPTC	Castell-Nedd Port Talbot, Powys ac Abertawe
Coleg y Cymoedd	Caerdydd Rhondda Cynon Taf a Chaerffili
Grŵp Llandrillo Menai	Gwynedd a Chonwy
Coleg Catholig Dewi Sant	Caerdydd
Coleg Merthyr	Merthyr Tudful
Coleg Sir Benfro	Sir Benfro
Coleg Gwent	Blaenau Gwent
Coleg Gwyr Abertawe	Abertawe
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg Caerdydd a'r Fro	Caerdydd

Atodiad 2

Trafodaeth ar Ddefnyddio Graddau F a G TGAU gyda Cholegau AB

Cwestiynau Cyfweiliad

Cwestiynau:

Y sefyllfa bresennol

Beth yw'r llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr sydd â graddau F gan fwyaf? Beth yw'r llwybrau dilyniant ar gyfer myfyrwyr gradd G?

Sut mae'r llwybrau dilyniant hyn yn cymharu â dysgwyr â graddau D ac E gan fwyaf?

Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae gradd F yn ei wneud o'i gymharu â gradd G wrth aseinio dysgwyr i gyrsiau neu gymwysterau? A yw hyn yn amrywio yn ôl pwnc?

A oes unrhyw ffyrdd eraill y mae graddau dysgwyr, yn enwedig graddau F a G, yn cael eu defnyddio yn eich coleg?

Canfyddiadau graddau

Sut fydddech chi'n disgrifio'r gwahaniaeth rhwng dysgwyr gradd F a gradd G?

Sut mae dysgwyr yn gweld graddau F? Sut mae hyn yn cymharu â'u barn ar raddau G?

I ba raddau y mae'r graddau hyn yn cael eu parchu gan ddysgwyr?

I ba raddau y mae graddau F a G yn cael eu parchu gan golegau?

Newid

A oes angen newid graddfa raddio cymwysterau TGAU ? Pam?

Os oes, beth ddylai'r newid hwnnw fod?

Dull cyfuno

Beth fyddai effaith cyfuno graddau F a G?

Ym mha ffordd y gallai hyn effeithio ar gymhelliant dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n debygol o ennill cymwysterau lefel 1?

A allai'r newid hwn effeithio'n anghymesur ar rai dysgwyr yn fwy nag eraill? Os gallai, ym mha ffordd/ffyrdd?

Ym mha ffordd y byddai cyfuno graddau F a G yn effeithio ar y broses o aseinio dysgwyr i gyrsiau?

Ydych chi'n rhagweld unrhyw effaith ar ddilyniant ar ôl AB wrth ystyried gofynion mynediad i hyfforddiant/cyrsiau pellach?

Beth fydddech chi'n ei enwi'r radd gyfunol newydd hon i bwysleisio ei gwerth fel cymhwyster?

Cwestiwn olaf

Rydym wedi cymryd bod graddau D ac E yn dal i gael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio gan ddysgwyr a cholegau, a dyna pam nad ydym wedi awgrymu cydgrynhoi pellach i raddau lefel un. A fyddai hyn yn dybiaeth deg, neu a yw hyn yn rhywbeth y gallai fod angen inni ei ailystyried?

Awdur yr Adroddiad
Amy Hall